Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 17 Mehefin 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer) Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, Menna Jones, Jabez Oakes, Anne Roberts, Dave Snape, Ifan Wyn and Emrys Wynne.

39. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr John Wynne Hughes and Robert Owen-Ellis.

40. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN

Croesawodd y Maer Sarjant Martin Jones i'r cyfarfod. Dywedodd y bu'r misoedd diwethaf yn rhai prysur i Heddlu Rhuthun ers ei gyflwyniad blaenorol i'r Cyngor Tref. Dywedodd eu bod yn rhoi pwyslais enfawr ar atal troseddau, ac yn annog pobl i ofalu am eu heiddo ac ystyried eu diogeledd. Roeddynt yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau cymunedol ac ailfywiogi cynlluniau gwarchod cymdogol. Gwahoddwyd yr aelodau i holi cwestiynau neu wneud sylwadau. Cyfeiriwyd at faw cŵn a chamddefnyddio cyffuriau yng Nghae Ddôl a phroblemau ym maes parcio Heol y Parc eto. Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at ymweliad i leoliad ymarfer saethu'r heddlu yn Rhewl a gofynnodd a fyddai'n bosibl trefnu i Gynghorwyr Tref Rhuthun ymweld â'r safle. Croesawyd y cais hwn, a gofynnwyd i'r rhai â diddordeb hysbysu'r Clerc fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol.

41. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant ynghylch eitem agenda 12 – Cais am gymorth ariannol gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch gan y Cynghorydd Heather Williams fel Is-gadeirydd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a gwraig y Trysorydd Anrhydeddus, y Cynghorydd Anne Roberts fel Cadeirydd y Gymdeithas a'r Cynghorydd Menna Jones fel aelod o Bwyllgor y Gymdeithas.

42. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

13/05 Tîm Tref Taclus
15/05 Ffilmio ar gyfer Deall Dementia yng Nghastell Rhuthun a chyfarfod gyda Dafydd Evans, Kartre, ynghylch yr Hen Lys
16/05 Partneriaeth Twristiaeth Sir Ddinbych
18/05 Cyfarfod gyda Ruth Astbury a Fiona Gale ynghylch ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yr Hen Lys
20/05 Cyfarfod gyda Sian Cole, Mitre Furnishing, ynghylch yr Hen Lys
23/05 Ymgynghoriad MacBryde Homes ynghylch cais cynllunio arfaethedig oddi ar Llys Famau yn Nhrem y Foel
24/05 Cyngerdd Clwyd 2020 yn Ocsiwn Rhuthun
25/05 Ffair Wledig Clwyd 2020 yn Ocsiwn Rhuthun
29/05 Cyfarfod gyda'r Parchedig Stuart Evans ynghylch y gwasanaeth Sul Dinesig
30/05 Sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth am droseddau Owl Cymru yn Eglwys Sant Pedr
31/05 Seremoni wobrwyo Ysgol Fonedd Rhuthun
01/06 Ffair Haf Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun
01/06 Treialon Amser Beicio Cymru yng Nghlwb Rygbi Rhuthun
01/06 Ras Ffyrdd Genedlaethol Beicio Cymru yn Sgwâr Sant Pedr
07/06 Ffug achos llys gydag Ysgol Stryd y Rhos a Heddlu Gogledd Cymru yn yr hen lys ynadon yn Ninbych
08/06 Tîm Tref Taclus a thywys aelodau Cymdeithas Hanes Llandyrnog o gwmpas yr Hen Lys
10/06 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol

43. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Seremoni wobrwyo Ysgol Fonedd Rhuthun, yn bresennol ac wedi cyflwyno medalau ym Mhencampwriaeth Ras Ffordd Beicio Cymru yn Sgwâr Sant Pedr, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a chyfarfod gweithgor Neuadd y Dref.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Seremoni wobrwyo Ysgol Fonedd Rhuthun.
Cyng. Stephen Beach	Lansio ymgyrch Dementia Ymwybodol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, ymgynghoriad MacBryde Homes ynghylch cais cynllunio arfaethedig oddi ar Llys Famau yn Nhrem y Foel, sesiwn ymwybyddiaeth troseddau Owl Cymru yn Eglwys Sant Pedr, seremoni wobrwyo Ysgol Fonedd Rhuthun a Ffair Haf Ysbyty Rhuthun.
Cyng. Jim Bryan	Dau gyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, dau gyfarfod Cymdeithas Sioe Rhuthun, tri chyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun a dau gyfarfod Cymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	Seremoni wobrwyo Ysgol Fonedd Rhuthun, Brecwast Busnes Dementia Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yng Nghanolfan Naylor Leyland a Bore Coffi yn Llys Marchan.
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Pedair sesiwn Banc Bwyd, cyfarfod Llywodraethwyr Sir Ddinbych a chyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, ymgynghoriad MacBryde Homes ynghylch cais cynllunio arfaethedig oddi ar Llys Famau yn Nhrem y Foel, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, sesiwn ymwybyddiaeth troseddau Owl Cymru yn Eglwys Sant Pedr, seremoni wobrwyo Ysgol Fonedd Rhuthun, cyfarfod gyda'r Cynghorydd Emrys Wynne a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yng Nghae Ddôl a chyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, digwyddiadau codi arian Clwyd 2020, seremoni wobrwyo Ysgol Fonedd Rhuthun, Pencampwriaeth Ras Ffordd Beicio Cymru a chyfarfod y gweithgor Strategaeth Cyfathrebu.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod y gweithgor Strategaeth Cyfathrebu.
Cyng. Emrys Wynne	

44. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau nodiadau gan y Cynghorydd Sir Bobby Feeley a oedd yn cyfeirio at gyfarfodydd ynghylch Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Clocaenog, cwynion am faw ci a thorri'r glaswellt yng Nghae Ddôl, cyfarfod yn Neuadd y Dref Rhuthun i drafod posibiliadau defnyddio'r adeilad yn y dyfodol a chyfarfod gyda chwmni MacBryde Homes i drafod y 69 annedd newydd y tu ôl i Drem y Foel.

45. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2019 yn gywir.*

46. MATERION YN CODI

Darllenodd y Clerc lythyr o ddiolch i'r Cyngor Tref am gymorth ariannol i Glwb Bowlio Gorphwysfa ac i'r Maer wedi ymddeol, y Cynghorydd Ian Lewney, gan Glwb Rygbi Mini ac Iau Rhuthun am y cyfraniad o'i gronfa elusen, y byddai mwy na 200 o aelodau'r clwb yn elwa

ohono. Nid oedd unrhyw faterion arall yn codi.

43. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019. Cadarnhaodd y Cynghorydd Emrys Wynne ei fod wedi derbyn neges e-bost gan Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bod y craen yn y Ganolfan Grefft yn eiddo i'r awdurdod lleol.

***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019.*

44. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019. Cyfeiriwyd at gyfarfod arfaethedig yn Y Plu ynghylch cais cynllunio Ysbyty Rhuthun i esbonio'r cynigion o ran safle'r ysbyty a safle'r hen ysgolion i gymdogion cyfagos.

***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019.*

49. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL

Gwnaeth yr aelodau ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019, ac argymhellion yr Is-bwyllgor, sef:

1. Bod y Cyngor Tref yn cael cerdyn credyd gydag uchafswm gwariant £3,000, gydag unrhyw wariant i'w gymeradwyo gan Weithgor yr Hen Lys, hysbysu dau aelod o'r Is-bwyllgor Craffu Ariannol a thalu'r hyn sy'n ddyledus ar y cerdyn credyd i'w gymeradwyo yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn.
2. Cynyddu'r yswiriant cywirdeb i'r lefel nesaf, sef £500,000, yn unol ag argymhelliad yr archwilydd mewnol, a'i adolygu ar adeg adnewyddu'r yswiriant.

***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2019 a chymeradwyo'r argymhellion i gael cerdyn credyd ar gyfer y Cyngor Tref a chynyddu'r yswiriant cywirdeb i'r lefel nesaf.*

50. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch am £1,500.00 tuag at gostau cynnal digwyddiad Drysau Agored Rhuthun yn 2019. Soniodd yr aelodau bod y digwyddiad hwn yn boblogaidd gyda thrigolion lleol ac ymwelwyr a chynigiwyd cefnogi'r cais.

***PENDERFYNWYD**: rhoi cymorth ariannol o £1,500 tuag at gost cynnal digwyddiad Drysau Agored Rhuthun 2019 i Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.*

51. ADNEWYDDU AELODAETH CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth Cyngor Tref Rhuthun gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar gost o £30.00.

***PENDERFYNWYD**: adnewyddu aelodaeth Cyngor Tref Rhuthun gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar gost o £30.00.*

52. CYNHADLEDD CYMRU SLCC

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan y Clerc i fynd i Gynhadledd Cymru SLCC ar 20 Mehefin 2019 yn Llandrindod ar gost o £80.00 + TAW.

***PENDERFYNWYD**: cytuno i'r cais gan y Clerc i fynd i'r gynhadledd yn Llandrindod ar gost o £80.00 + TAW.*

53. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN, PWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau eu manylion ar ffurflenni a ddosbarthwyd yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r manylion.*

54. FFORWM TREF RHUTHUN

Awgrymwyd y dylai Fforwm Tref Rhuthun, a fyddai'n fforwm ar gyfer cyfathrebu a rhannu

gwybodaeth yn unig, ddod yn lle Tîm y Dref. Dylai unrhyw arian yng nghyfrif Tîm y Dref fynd i Ymlaen Rhuthun. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Dave Snape ymchwilio i gostau dadgomisiynu'r ddarpariaeth di-wifr ar Sgwâr Sant Pedr a materion cysylltiedig.
***PENDERFYNWYD**: ffurfio Fforwm Tref Rhuthun fel fforwm cyfathrebu.*

55. DIWEDDARIAD GAN WEITHGOR CYFATHREBU CYNGOR TREF RHUTHUN
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Strategaeth a Chanllawiau Cyfathrebu drafft a luniwyd gan y gweithgor. Cyflwynwyd cais i'r ddogfen ddrafft fod ar gael yn Gymraeg hefyd, ac i aelodau gael cyfle i ystyried y cynnwys yn eu dewis iaith cyn cyfarfod. Awgrymwyd cynnal cyfarfod ar y cyd rhwng cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i'w gynnal ar 8 Gorffennaf i drafod y Strategaeth a'r Canllawiau Cyfathrebu.
***PENDERFYNWYD:** derbyn copïau'r Strategaeth a'r Canllawiau yn Gymraeg a Saesneg ac ystyried y cynnwys mewn cyfarfod ar 8 Gorffennaf 2019.*

56. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS
Hysbysodd y Cynghorydd Gavin Harris yr aelodau bod tendrau wedi'u hanfon at bedwar cwmni adeiladu i ymgymryd â'r gwaith adnewyddu, tri chwmni lleol ac un ychydig ymhellach i ffwrdd. Gofynnwyd i'r tendrau gael eu dychwelyd erbyn dydd Gwener, 19 Gorffennaf 2019.
***PENDERFYNWYD:** nodi'r diweddariad.*

57. DIWEDDARIAD YNGHYLCH NEUADD Y DREF
Cynhaliwyd cyfarfod yn cynnwys cynrychiolwyr Cyngor Tref Rhuthun a Chyngor Sir Ddinbych, darpar grwpiau defnyddwyr a chynrychiolwyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar 12 Mehefin, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddefnydd Neuadd y Farchnad yn y dyfodol, gan ei fod ar fin dod yn wag ganol fis Gorffennaf. Roedd y Cynghorwyr Gavin Harris, Heather Williams a Menna Jones wedi cytuno i gynnal cyfarfod pellach gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.
***PENDERFYNWYD:** nodi'r diweddariad.*

58. FELODROM GOGLEDD CYMRU
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried trefnu cyfarfod dechreuol gyda Chyngor Sir Ddinbych a phartneriaid potensial eraill i ystyried a ellid cynnig Rhuthun fel lleoliad posibl ar gyfer Felodrom Gogledd Cymru. Cynigiodd y Cynghorydd Gavin Harris gysylltu gyda'r clwb pel-droed a Ben Wilcox-Jones i fwrw ymlaen gyda hyn.
***PENDERFYNWYD:** cefnogi trefnu cyfarfod dechreuol i ystyried Rhuthun fel lleoliad posibl ar gyfer Felodrom Gogledd Cymru.*

59. DATGANIAD ARIANNOL
Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2019.
***PENDERFYNWYD:** derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2019.*

60. CYFRIFON I'W TALU
***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100174	Pwyllgor Gŵyl Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at Ŵyl 2019		£1,000.00
100175	Menter Iaith Sir Ddinbych	Cymorth ariannol tuag at ddigwyddiadau'r Fenter yn Rhuthun		£959.00
100176	Cyngor Sir Ddinbych	Lluniaeth yn dilyn y cyflwyniad statws Rhuthun sy'n Croesawu Bysiau Moethus	*	£84.00
100177	Secom	Datgysylltu a thynnu'r system larwm o'r Hen Lys	*	£244.80
100178	Elevator Design Limited	Tystysgrif diogeledd y safle a lletya'r wefan visitruthin.wales am 1 flwyddyn o	*	£186.00

		12 Mehefin 2019		
100179	Scottish Power	Ffioedd trydan ar gyfer yr Hen Lys, 18.01.19 – 01.05.19		£60.56
100180	Dylan C Jones Ltd	Datgysylltu, diogelu a thynnu'r hen wifrau o'r Hen Lys	*	£85.20
100181	Snowdonia Fire & Security	Galwad i ymdrin â nam ar y system larwm tân ac ailosod y system	*	£97.92
100182	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio a gwrtaith planhigion		£510.00
100183	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt – Mehefin 2019		£528.39
100184	IT Williams Co. Ltd.	Cludo'r planwyr ar gyfer y basgedi crog	*	£528.00
100185	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£354.12
100186	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Mehefin 2019	*	£84.00
100187	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Mehefin 2019	*	£180.00
100188	Cyng. Gavin Harris	Lwfans y Maer – rhandaliad cyntaf		£600.00
100189	Fineline	Tystysgrifau a fframiau Gwobrau Dinesydd Da	*	£69.47
100190	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Mai 2019		£528.39
100191	Total Gas & Power	Ffi cyflenwad nwy dyddiol		£24.15
100192	David Moseley Painter & Decorator	Ailbaentio parc sglefrfyrddio Cae Ddôl		£1,911.56
100193	Cyng. Gavin Harris	Pwmp dŵr, pibell ddisbyddu a chlipiau jiwbili		£39.89
D.U.	Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)	Taliad benthyciad yr Hen Lys		£3,516.42

61. ADRODDIADAU AROLYGIAD ESTYN YSGOL PEN BARRAS AC YSGOL FONEDD RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau nodi adroddiadau arolygiad Estyn diweddar Ysgol Pen Barras ac Ysgol Fonedd Rhuthun. Gwnaeth yr aelodau longyfarch y ddwy ysgol am gael adroddiadau rhagorol, a gofyn am anfon llythyrau llongyfarch i'r ddwy ysgol.

PENDERFYNWYD: *anfon llythyrau llongyfarch i'r ddwy ysgol.*

62. DISGRIFIAD SWYDD DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG

Gofynnwyd i'r aelodau drafod y diwygiadau arfaethedig i ddisgrifiad swydd Rheolwr yr Hen Lys / Dirprwy Glerc y Dref a chytuno ar ddyddiad cau a dyddiad cynnal cyfweliadau.

PENDERFYNWYD: *ailhysbysebu'r swydd gan ddefnyddio'r disgrifiad swydd diwygiedig, gyda'r ceisiadau i'w cyflwyno erbyn 12pm ddydd Llun, 8 Gorffennaf.*

63. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 15 Gorffennaf 2019 am 7.00pm.*